Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad newyddion

Dyddiad: **Dydd Mercher, 30 Mai 2018**

Teitl: Cyllid ar gyfer addysg uwch yn 2018/19

Bydd y corff sy'n cyllido ac yn rheoleiddio addysg uwch yng Nghymru'n dyrannu £138.2 miliwn o arian cyhoeddus i brifysgolion a darparwyr addysg uwch (AU) eraill yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae'r cyllid yn cynnwys dyraniadau sefydliadol ar gyfer ymchwil, cyrsiau israddedig rhan amser, cyrsiau israddedig llawn amser, pynciau drud a datblygiadau cyfalaf.

Mae hyn yn dilyn dyraniadau ychwanegol o £21.4 miliwn i ddarparwyr AU ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18, yn bennaf o ganlyniad i'r cyllid pellach a amlinellwyd yn Llythyr Cylch Gwaith adolygedig CCAUC gan Lywodraeth Cymru.

Mae dyraniadau CCAUC yn 2018/19 yn cynnwys y categorïau cyllido canlynol:

	Y Cyllid Sydd Ar Gael ar gyfer ei Ddyrannu	
	Blwyddyn Academaidd	
Categori Cyllido	**2017/18**	**2018/19**
Ymchwil[1]	£80.4m	£78.9m
Addysgu Rhan Amser[2]	£26.9m	£25.5m
Addysgu Llawn Amser[3]	£15.0m	£15.2m
Mentrau Strategol	£6.7m	£2.3m
Dyraniad sylfaen cyn addasiad cyllido	**£129.0m**	**£121.9m**
Addasiad Cyllido	-£22.5m	-£12.5m
Dyraniad cyllido ar ôl addasiad	**£106.5m**	**£109.4m**
Cyllid Lliniaru Ffi[4]	£0.0m	£10.0m
Cefnogaeth Interim Meistr Ôl-radd[5]	£0.0m	£8.8m
Cyllid ychwanegol llythyr cylch gwaith	£8.2m	£0.0m
Cyfanswm y Cyllid Refeniw	**£114.7m**	**£128.2m**
Cyfalaf	£6.0m	£10.0m
Cyfanswm y Refeniw a'r Cyfalaf	**£120.7m**	**£138.2m**

Mae'r cyllid o £138.2 miliwn yn cael ei ddarparu i gefnogi'r canlynol:

Ymchwil

Mae cyllid **ymchwil ansawdd (YA)** yn cael ei ddarparu i gefnogi seilwaith ymchwil darparwyr AU ac mae'n cael ei ddyrannu'n seiliedig ar ganlyniadau Fframwaith

[1] Yn cynnwys YA, HYO a Sêr Cymru I a II.

[2] Yn cynnwys cyllid seiliedig ar gredydau, premiymau, y pen, addasiad rhan amser ar gyfer tanrecriwtio, ildio ffi rhan amser a chyllid lliniaru'r Brifysgol Agored.

[3] Yn cynnwys Premiwm Pynciau Drud ac y pen ar gyfer darpariaeth Israddedig (IR) ac Ôl-radd a Addysgir (ORA).

[4] Yn ymwneud â materion sy'n codi o fethu cynyddu ffioedd hyfforddi israddedig/TAR llawn amser yn uwch na £9,000 ym mlwyddyn academaidd 2018/19

[5] Darparwyd gan CCAUC am un flwyddyn cyn gweithredu pecyn cefnogi addysgu ôl-radd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (CBM) ym mlwyddyn academaidd 2019/20.

Rhagoriaeth Ymchwil 2014 (REF2014), gyda bron i draean yr ymchwil a gyflwynwyd gan brifysgolion Cymru'n cael ei ystyried yn 'flaenllaw yn y byd'.

Cyllid **Hyfforddiant Ymchwil Ôl-radd (HYO)**, sy'n cael ei ddarparu i gefnogi datblygiad ymchwilwyr sydd â lefel uchel o sgiliau.

Cyfraniad CCAUC at raglen **Sêr Cymru** Llywodraeth Cymru, sy'n darparu buddsoddiad ychwanegol i roi hwb i allu ymchwil mewn meysydd gwyddoniaeth dethol yng Nghymru, a chynyddu lefelau'r incwm grant ymchwil allanol a sicrheir.

Addysgu rhan amser

Mae'r cyllid hwn yn bennaf yn darparu cyfraniad tuag at gostau cyrsiau rhan amser. Mae'n cynnwys cyllid premiwm (ategol) i gydnabod llwyddiannau darparwyr wrth recriwtio a chadw myfyrwyr o ardaloedd difreintiedig, myfyrwyr anabl a myfyrwyr sy'n derbyn eu hyfforddiant yn y Gymraeg. Mae hefyd yn cynnwys cyllid y pen i gefnogi darpariaeth ôl-radd ran amser a addysgir.

Cyllid addysgu llawn amser, gan gynnwys pynciau drud

Darperir y rhan fwyaf o'r cyllid hwn fel premiwm pynciau drud – cyllid ychwanegol fesul myfyriwr i gefnogi cyrsiau israddedig llawn amser cost uwch mewn meddygaeth, deintyddiaeth a chelfyddydau perfformio. Mae cydbwysedd y cyllid addysgu llawn amser yn ymwneud â chyllid y pen ar gyfer myfyrwyr israddedig llawn amser, myfyrwyr TAR a myfyrwyr ôl-radd a addysgir.

Cyllid strategol

Mae symiau amrywiol o gyllid yn cael eu darparu i gefnogi nifer o fentrau pwysig yn strategol, gan gynnwys Ymgyrraedd yn Ehangach, sy'n gwella mynediad i fyfyrwyr a dangynrychiolir ac yn gwella'r gallu i'w cadw.

Cyllid cyfalaf

Mae hwn yn cyfrannu tuag at gost datblygiad effeithiol a gwell effeithlonrwydd stad y darparwyr AU.

Addasiadau cyllido

Mae gostyngiad cyllido o £12.5 miliwn wedi cael ei weithredu gyda'r dyraniad cyllid sylfaen ar gyfer 2018/19, o gymharu â gostyngiad o £22.5 miliwn yn 2017/18. Mae'r sylfaen yn cynnwys y prif ddyraniadau cyllido'n seiliedig ar y dulliau cyllido ar gyfer ymchwil, addysgu a mentrau strategol. Rhaid gweithredu gostyngiad cyllido ar gyfer y cyllid sylfaen er mwyn adlewyrchu'r gyllideb wirioneddol sydd ar gael. Yn dilyn y gostyngiad o £12.5 miliwn ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19, disgwylir na fydd unrhyw ostyngiadau cyllido pellach o 2019/20 ymlaen.

Dywedodd Dr David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC: "Rydyn ni eisoes wedi gallu targedu'r cyllid ychwanegol sydd i'w groesawu ar gyfer addysg uwch yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf at feysydd o bwysigrwydd strategol i addysg ac economi Cymru, fel gweithio gyda chymunedau ac arloesi.

"Mae ein dyraniadau ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod, er eu bod yn parhau'n is na'r lefel gyllido yr oedd modd i ni ei dosbarthu yn 2015/16, yn dechrau adlewyrchu tirlun cyllido newydd, lle byddwn yn gallu gwneud yn siŵr bod gan ein darparwyr addysg uwch well adnoddau, diolch i'r ymrwymiad y bydd y cyllid sydd ar gael i ni'n cynyddu bob blwyddyn dros oes y Llywodraeth. Bydd y cyllid cyfalaf sydd ar gael eleni'n helpu sefydliadau i wella ansawdd ac effeithlonrwydd eu cyfleusterau, sy'n gallu cael effaith bositif uniongyrchol ar brofiad y myfyrwyr a'r staff.

"Mae ymrwymiad y Llywodraeth i gefnogi myfyrwyr o Gymru a sefydliadau Cymru yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod yn dangos y gwerth a roddir i fuddsoddi yn ein hymchwil, ein haddysg uwch a graddedigion y dyfodol, ac yn ffyniant y genedl."

Diwedd

Tablau isod (o gylchlythyr W18/10HE).

Tabl 1 Dyraniadau cyllido cyffredinol ar gyfer 2018/19.

Tabl 6 Cymharu cyllid blwyddyn academaidd 2017/18 a blwyddyn academaidd 2018/19

Cyswllt: Emma Rączka, Uwch Reolwr Cyfathrebu 029 2085 9667

emma.raczka@hefcw.ac.uk

Overall Funding Allocations 2018/19					Table 1
	FY 2017-18	AY 2017/18	FY 2018-19	AY 2018/19	FY 2019-20
	£	£	£	£	£
Recurrent Grant (Budget) FY allocation [1]	117,997,000		108,519,000		124,760,000
Budget Adjustments [2]	-3,665,000		0		0
Less - Depreciation	-90,000		-90,000		-90,000
Less - Running Costs	-3,419,085		-3,419,085		-3,640,507
Actual Cost Adjustment	637,759				
	111,460,674		**105,009,915**		**121,029,493**
Fee Mitigation Funding	0		5,000,000		5,000,000
PGT Masters Interim Support	0		5,000,000		5,000,000
Capital Allocation	5,900,000		10,000,000		10,000,000
Total FY Resource	**117,360,674**		**125,009,915**		**141,029,493**
53% of 2018-19				55,149,610	
44% of 2019-20				53,536,878	
		115,916,782		**108,686,488**	
Fee Mitigation assumed to be spent in AY		0		10,000,000	
PGT Masters Interim Support assumed to be spent in AY		0		8,833,776	
Capital Spend		5,900,000		10,000,000	
Total AY Resource		**121,816,782**		**137,520,264**	
Cash Balance brought forward from previous year		1,991,095		3,101,515	
Available Resource for Allocation		**123,807,877**		**140,621,779**	
Research					
Quality Research (QR)		71,077,344		71,077,344	
Postgraduate Research (PGR)		5,170,336		5,170,336	
Sêr Cymru		4,127,495		2,659,174	
Total		**80,375,175**		**78,906,854**	
Part-time Undergraduate (PT UG) Funding					
PT UG credit based Teaching		20,289,148		19,728,946	
Per capita		107,080		103,095	
Welsh Medium premium		204,432		159,836	
Access and Retention premium		5,233,186		4,997,280	
Disability premium		156,900		165,000	
Total		**25,990,746**		**25,154,157**	
OU Mitigation funding		**1,655,490**		**1,655,490**	
PT adjustment for under recruitment in prior years		**-859,222**		**-1,495,005**	
Part-time Fee Waiver		**80,000**		**85,000**	
Postgraduate Taught (PGT) Funding					
Per capita PT		38,830		39,040	
Per capita FT		17,525		20,885	
Disability premium PGR		30,000		35,400	
Total		**86,355**		**95,325**	
Full-time Undergraduate (FT UG) and Postgraduate Certificate in Education (PGCE) funding					
Per capita		334,850		342,385	
Expensive subjects premium		14,637,880		14,811,600	
Total		**14,972,730**		**15,153,985**	
Strategy and Initiative Allocations					
including:					
Reaching Wider		1,798,089		1,731,920	
GO Wales		900,000		560,000	
Strategic Development Fund		2,225,149		-933,000	
Learning and Teaching Fund		860,879		550,522	
Other Strategy and Initiatives		905,663		376,801	
Total		**6,689,780**		**2,286,243**	
Fee Mitigation		**0**		**10,000,000**	
PGT Masters Interim Support		**0**		**8,833,776**	
Additional Remit letter funds					
Supplementary funding to support Expensive Subjects Premium (ESP) performance arts training		1,700,000		0	
Civic Mission		1,800,000		0	
Institute of Coding		1,200,000		0	
HE and FE Collaboration		3,500,000		0	
Total		**8,200,000**		**0**	
Sector Agency Contribution					
Jisc		2,001,470		2,001,470	
L&T Fund Sector Agency Contribution -					
- NSS		155,000		155,000	
- Wise Wales		40,000		20,000	
Equality Challenge Unit		61,987		61,987	
International Initiatives		68,018		68,018	
Leadership Foundation		40,000		40,000	
National Coordinating Centre for Public Engagement (NCCPE)		5,893		5,893	
RCUK Vitae		2,437		2,437	
The Conversation		15,000		15,000	
National Council for Universities and Business (NCUB)		30,000		30,000	
HEI contribution to sector agency costs		-2,399,497		-2,399,805	
Total		**20,308**		**0**	
Adjustment as a result of changes to HEFCW budget		**-22,500,000**		**-12,500,000**	
Total Revenue Allocations		**114,711,362**		**128,175,825**	
Capital Allocations		5,995,000		10,000,000	
Total Revenue and Capital Allocations		**120,706,362**		**138,175,825**	
Balance		3,101,515		2,445,954	
NOTES					
1 - Grant In Aid (GIA) details taken from remit letters (all non-GIA items in separate non-GIA budget)					
2 - Budget Adjustments in 2017-18, £3.665m SLC contribution expectation					

Table 6: Funding comparison AY 2017/18 and AY 2018/19

HE institutions	Allocations 2017/18 [1] (£)									Allocations 2018/19 [1] (£)									Change 2017/18 to 2018/19 £	Percentage change 2017/18 to 2018/19
	PT UG credit based funding (£)	PT and PGT per capita and premium funding[2] (£)	FT UG/PGCE per capita and premium funding[3] (£)	QR (£)	PGR (£)	Mitigation funding[5] (£)	Total 2017/18 (£)	Funding adjustment (£)	**Total 2017/18 with funding adjustment[4] (£)**	PT UG credit based funding (£)	PT and PGT per capita and premium funding[2] (£)	FT UG/PGCE per capita and premium funding[3] (£)	QR (£)	PGR (£)	Mitigation funding[5] (£)	Total 2018/19 (£)	Funding adjustment (£)	**Total 2018/19 with funding adjustment[4] (£)**		
University of South Wales	5,927,310	1,730,735	1,846,560	1,530,192	140,130	0	11,174,927	-1,899,054	**9,275,873**	5,055,911	1,366,540	1,845,550	1,530,192	159,136		9,957,329	-962,110	**8,995,219**	-280,654	-3%
Aberystwyth University	469,871	62,518	31,065	7,010,422	372,155	0	7,946,032	-1,589,851	**6,356,181**	419,011	60,644	29,515	7,010,422	359,907		7,879,499	-878,854	**7,000,645**	644,464	10%
Bangor University	249,789	52,799	31,375	7,218,736	536,966	0	8,089,665	-1,620,837	**6,468,828**	249,817	51,620	31,955	7,218,736	565,442		8,117,570	-906,458	**7,211,112**	742,284	11%
Cardiff University	1,095,874	391,966	10,595,560	39,796,996	2,995,943	0	54,876,340	-11,016,243	**43,860,097**	1,164,812	453,143	10,598,760	39,796,996	2,716,400		54,730,112	-6,115,250	**48,614,862**	4,754,765	11%
University of Wales Trinity Saint David	2,634,856	508,043	30,585	298,936	7,297	0	3,479,717	-595,470	**2,884,247**	2,336,419	482,725	32,665	298,936	16,848		3,167,593	-299,243	**2,868,350**	-15,898	-1%
Swansea University	699,532	397,376	2,384,575	13,749,083	1,044,951	0	18,275,517	-3,609,527	**14,665,990**	792,141	359,101	2,564,645	13,749,083	1,232,599		18,697,569	-2,062,699	**16,634,870**	1,968,880	13%
Cardiff Metropolitan University	414,827	140,315	36,990	1,065,119	72,893	0	1,730,144	-314,397	**1,415,747**	559,416	204,014	35,340	1,065,119	120,004		1,983,893	-196,832	**1,787,061**	371,315	26%
Wrexham Glyndŵr University	2,264,986	541,603	13,320	214,955		0	3,034,865	-502,103	**2,532,762**	2,244,565	480,335	13,155	214,955			2,953,011	-277,503	**2,675,508**	142,746	6%
Open University in Wales	6,001,602	1,799,374				1,655,490	9,456,466	-1,215,119	**8,241,347**	6,366,398	1,870,700				1,655,490	9,892,588	-718,307	**9,174,281**	932,934	11%
Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies				192,904		0	192,904	-39,056	**153,848**				192,904			192,904	-21,765	**171,139**	17,291	11%
Total [4]	**19,758,648**	**5,624,728**	**14,970,030**	**71,077,344**	**5,170,336**	**1,655,490**	**118,256,576**	**-22,401,657**	**95,854,919**	**19,188,489**	**5,328,823**	**15,151,585**	**71,077,344**	**5,170,336**	**1,655,490**	**117,572,067**	**-12,439,021**	**105,133,046**	**9,278,127**	**10%**

FE Institutions	Allocations 2017/18 [1] (£)									Allocations 2018/19 [1] (£)									Change 2017/18 to 2018/19	Percentage change 2017/18 to 2018/19
	PT UG credit based funding (£)	PT and PGT per capita and premium funding[2] (£)	FT UG/PGCE per capita and premium funding[3] (£)	QR (£)	PGR (£)	Mitigation funding[5] (£)	Total 2017/18 (£)	Funding adjustment (£)	**Total 2017/18 with funding adjustment[4] (£)**	PT UG credit based funding (£)	PT and PGT per capita and premium funding[2] (£)	FT UG/PGCE per capita and premium funding[3] (£)	QR (£)	PGR (£)	Mitigation funding[5] (£)	Total 2018/19 (£)	Funding adjustment (£)	**Total 2018/19 with funding adjustment[4] (£)**		
Grŵp Llandrillo Menai	472,963	137,517	2,460			0	612,941	-86,694	**526,247**	433,970	147,158	2,150				583,277	-48,964	**534,313**	8,067	2%
Grŵp NPTC Group	44,189	10,426	240			0	54,855	-8,947	**45,908**	56,376	20,115	250				76,741	-6,361	**70,380**	24,472	53%
Gower College Swansea	13,347	15,282				0	28,629	-2,702	**25,927**	50,111	24,441					74,552	-5,654	**68,898**	42,971	166%
Total [4]	**530,499**	**163,225**	**2,700**	**0**	**0**	**0**	**696,425**	**-98,343**	**598,082**	**540,456**	**191,714**	**2,400**	**0**	**0**	**0**	**734,570**	**-60,979**	**673,591**	**75,509**	**13%**
Total HEIs and FEIs [4]	**20,289,147**	**5,787,953**	**14,972,730**	**71,077,344**	**5,170,336**	**1,655,490**	**118,953,000**	**-22,500,000**	**96,453,000**	**19,728,946**	**5,520,536**	**15,153,985**	**71,077,344**	**5,170,336**	**1,655,490**	**118,306,636**	**-12,500,000**	**105,806,636**	**9,353,636**	10%

(1) Mae'r dyraniadau a ddangosir yma'n gosod darpariaeth HCA (ANG) yn y sefydliad sy'n darparu. (2) Mae'r premiymau'n cynnwys y premiwm mynediad a chadw (RhA IR), y premiwm cyfrwng Cymraeg (RhA IR) a'r premiwm anabledd (RhA IR ac OR). (3) Y dyraniad premiwm LIA IR/TAR yw'r premiwm pynciau drud. (4) Efallai nad yw'r cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu. (5) Dyrennir cyllid lliniaru i'r Brifysgol Agored yng Nghymru oherwydd ei sefyllfa unigryw yn derbyn cyllid rhan amser yn unig a dim incwm o'r ffioedd llawn amser cynyddol o dan y drefn newydd. Gweler paragraffau 56 i 58 o destun y cylchlythyr.

Nodiadau technegol

1. Gwelir y dyraniadau llawn ar wefan CCAUC o dan Cyhoeddiadau – Cylchlythyrau – Dyraniadau Cyllido CCAUC 2018/19 (Cylchlythyr W18/10HE).

Cyllideb ac addasiadau cyllido Llywodraeth Cymru

2. Mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu ei chyllideb i ni ar sail blwyddyn ariannol. Fodd bynnag, rydym ni'n dosbarthu cyllid yn ôl blwyddyn academaidd. Gall dyraniadau i sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach gael eu haddasu yn ystod y flwyddyn os bydd ein cyllideb ni gan Lywodraeth Cymru yn newid.

3. Mae'r dyraniadau cyllido ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18 wedi cynyddu ers cyhoeddi'r dyraniadau gwreiddiol y llynedd oherwydd derbyniodd CCAUC atodiad cyllido adolygedig i lythyr cylch gwaith 2017-18 gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2018, oedd yn cynnwys nifer o addasiadau cyllido i gyllideb blwyddyn ariannol 2017-18. Roedd y rhain yn darparu cyllid ychwanegol i CCAUC i roi sylw i flaenoriaethau penodol Llywodraeth Cymru a chyllid ychwanegol i ddarparwyr AU. *(Ceir manylion pellach ym mharagraffau 7-12 cylchlythyr Dyraniadau Cyllido 2018/19, W18/10HE).* Effaith net y newidiadau hyn yn ystod y flwyddyn oedd cynnydd cyllido cyffredinol o £21.4 miliwn yn erbyn y dyraniadau gwreiddiol ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18.

4. Seilir y gyllideb ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19 ar gyfran o'r gyllideb sydd wedi'i chadarnhau ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19, a chyfran o'r gyllideb ddynodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20. Cyfanswm y dyraniad cyllido ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19 yw £138.2 miliwn.

5. Nid yw'r dyraniadau cyllido yn y datganiad i'r wasg hwn a'r cylchlythyr cysylltiedig yn adlewyrchu unrhyw addasiadau cyllid posib a wneir yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru i gyllideb CCAUC ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19. Os gwneir unrhyw addasiadau, byddant yn arwain at adolygu'r dyraniadau unigol ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19. Hefyd, os yw cyllideb blwyddyn ariannol 2019-20 yn wahanol i swm tybiedig y dyraniad hwn, bydd effaith ar yr adnoddau sydd ar gael ym mlwyddyn academaidd 2018/19 a'r dyraniadau cysylltiedig.

6. Seilir cyllid **sylfaen** ar gyfrifiadau ar gyfer pob darparwr gan ddefnyddio ein methodoleg gyllido arferol. Gwneir yr **addasiad cyllido** yn dilyn y cyfrifiadau hyn i

adlewyrchu'r gyllideb wirioneddol sydd ar gael a chaiff ei chyfrif ar gyfer pob sefydliad drwy ddefnyddio gostyngiad pro rata ar draws cyfanswm cyllid pob darparwr ar gyfer YA, OR, addysgu rhan amser seiliedig ar gredydau a Phremiwm Pynciau Drud. Gan fod pob un o'r meysydd hyn yn cael blaenoriaeth strategol gyfartal, rhaid i bob darparwr AU unigol benderfynu sut i weithredu'r gostyngiad cyllido yn ei sefydliad ei hun.

7. Wedi i Lywodraeth Cymru weithredu argymhellion adolygiad Diamond o gyllid addysg uwch a threfniadau cyllid myfyrwyr, mae disgwyl i incwm CCAUC yn y dyfodol gynyddu bob blwyddyn am oes y Llywodraeth bresennol, fel y nodir yn llythyr cylch gwaith CCAUC gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19.

Dyraniadau cyllido a blaenoriaethau

8. Mae'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu i ddarparwyr addysg uwch yn parhau i gael ei ddyrannu yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae CCAUC yn targedu gweithgareddau (fel gwarchod y ddarpariaeth ran amser, gwobrwyo rhagoriaeth ym maes ymchwil a recriwtio a chadw gwirfoddolwyr o gefndiroedd cyfranogiad isel) na fyddai system gyllido sy'n dibynnu ar ffioedd hyfforddi israddedig llawn amser yn unig yn eu cyflawni.

9. Yn benodol, mae CCAUC yn targedu cyllid yn y meysydd canlynol:

- ymchwil ansawdd (YA), sy'n canolbwyntio ar gefnogi ymchwil ar y lefelau uchaf o ran perfformiad, er mwyn cynnal gallu cystadleuol Cymru ar lefel flaenllaw.
- gwarchod, cyn belled ag y bo hynny'n bosib, y cyllid addysgu israddedig rhan amser ar lefel sector. Mae CCAUC yn parhau i gyllido drwy gyfrwng y dull cyllido seiliedig ar gredydau ar gyfer cyrsiau rhan amser ym mlwyddyn academaidd 2018/19.
- premiwm pynciau drud cyfradd uwch ar gyfer cyrsiau israddedig llawn amser ym maes meddygaeth glinigol/ deintyddiaeth a chelfyddydau perfformio conservatoire. Mae hyn yn ychwanegol at y ffioedd o £9,000 y myfyriwr y mae sefydliadau'n eu derbyn ar gyfer y cyrsiau hynny. Mae taliad uchafswm yn berthnasol i ddyraniadau sefydliadol ar gyfer pynciau drud, yn seiliedig ar gwotâu neu drefniadau cyllido y cytunwyd arnynt yn flaenorol. Mae'r cyfuniad o £9,000 o ffioedd a hefyd ein

premiwm pwnc drud yn darparu adnoddau fesul myfyriwr sy'n gymharol â'r symiau a ddarparwyd yn 2011/12 (ar ôl ystyried addasiadau enillion effeithlonrwydd). Y premiwm hwn yw'r unig gyllid sydd ar gael erbyn hyn ar gyfer myfyrwyr israddedig a TAR llawn amser drwy ddyraniadau cyllido CCAUC, ar wahân i gyllid "y pen" o £5 am bob myfyriwr sydd wedi cofrestru.

Cyllido Ymchwil Ansawdd

10. Mae'r cyllid ar gyfer ymchwil ansawdd (YA) yn ystyried ansawdd a swm yr ymchwil yng Nghymru, fel yr adroddwyd yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014. Mwy o wybodaeth: www.hefcw.ac.uk/policy_areas/research/funding_research.aspx

11. Mae dyraniadau blwyddyn academaidd 2018/19 fesul prifysgol i'w gweld yn Nhabl 2 y cylchlythyr ac maent yn seiliedig ar yr un fformiwla â blwyddyn academaidd 2017/18.

12. Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF2014) yw'r system ledled y DU ar gyfer asesu ymchwil mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU gan ddefnyddio panelau o arbenigwyr mewn meysydd pwnc academaidd unigol sy'n asesu ansawdd, effaith ac amgylchedd cyflwyniadau ymchwil sefydliadau. Mae'n cael ei gynnal ar y cyd gan y pedwar corff cyllido addysg uwch yn y DU. Cwblhawyd y Fframwaith cyntaf yn 2014 (gan gymryd lle'r Ymarfer Asesu Ymchwil blaenorol). www.ref.ac.uk/

13. Mae Tabl 6 yn cymharu â dyraniadau cyllido mynych blwyddyn academaidd 2017/18 fesul sefydliad.

14. Mae CCAUC wedi monitro effaith gyffredinol ein gostyngiadau cyllido ar y Brifysgol Agored yng Nghymru, gan nad oes gan y Brifysgol Agored unrhyw incwm o ffioedd israddedig llawn amser (na chyrsiau ôl-radd llawn amser) i wneud iawn am unrhyw ostyngiadau mewn llinellau cyllidebol eraill. Eleni bydd CCAUC yn darparu cyllid o £1.655 miliwn i'r Brifysgol Agored, yr un swm ag a roddwyd y llynedd, i gydnabod y cyllid strategaeth sydd wedi'i golli, y cyllid premiwm sydd wedi'i golli a'r cyllid ôl-radd rhan amser sydd wedi'i golli.

Am CCAUC

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru - CCAUC – yw'r corff cyhoeddus sy'n gweithredu rhwng prifysgolion a Llywodraeth Cymru. Rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd darparwyr addysg uwch ac yn sicrhau bod fframwaith yn ei le ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch a chraffu ar berfformiad prifysgolion. Rydym yn dosbarthu adnoddau ar gyfer addysgu ac ymchwil addysg uwch ac yn helpu i roi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch ar waith er lles cymdeithas yn ehangach ac er lles yr economi.